PWYLLGOR PENODI

DYDD MAWRTH, 27 CHWEFROR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Mackie, Michael, Wild, Robson a/ac Williams |

1 : ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Bod y Cynghorydd Michael Michael yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Penodi hwn wedi'i ymgynnull i benodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Strydlun.

*(Y Cynghorydd Michael Michael yn y Cadeirydd)*

2 : YMDDIHEURIADAU (OS UNRHYW)

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

4 : CYLCH GORCHWYL

I nodi'r Cylch Gorchwyl a ganlyn:-

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod o ran penodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Prif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor.*

5 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod:-

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r awdurdod; a

Pharagraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

6 : PENODI CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL - STRYDLUN

Cafodd y Pwyllgor Penodi ei ymgynnull i ystyried rhestr hir yr ymgeiswyr ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Strydlun.

Adolygodd y Pwyllgor un deg saith o geisiadau a gyflwynwyd ar gyfer y swydd hon ac ystyriodd sut yr oedd ymgeiswyr yn bodloni'r galluoedd hanfodol o'r Fframwaith Galluoedd Ymddygiadol a'r proffil rôl; a nododd yr ymgeiswyr hynny i fynd ymlaen i'r Ganolfan Asesu.

PENDERFYNWYD:

(1) y caiff ymgeiswyr 1, 2, 3, 6, 9. 10, 11 a 15 eu symud ymlaen i'r Ganolfan Asesu.

7 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen unrhyw ddiswyddo dilynol fel rhan o'r broses greu rhestr hir.

8 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - DYDD MAWRTH 20 MAWRTH 2018 AM 10.00AM

Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau.